# Disgrifiad Swydd

barcud

## Cyfarwyddwr Grŵp Pobl a Mewnwelediadau

**Yn adrodd i:** Brif Weithredwr y Grŵp

**Yn atebol i:** Fwrdd Grŵp Barcud

**Rhai sy'n adrodd yn uniongyrchol – (Yn Dibynnu ar Adolygiad):** Cyfarwyddwr Cynorthwyol TGCh a Gwella Busnes, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau i Gwsmeriaid a Phartneriaethau, Cyfarwyddwr Cynorthwyol AD a Chyfathrebiadau

**Allanol:** Tenantiaid, Grŵp Partneriaeth Tenantiaid Barcud, Cwsmeriaid, Rheoleiddiwr Tai Cymdiethasol Cymru, llywodraeth Cymru, CCC, TPAS, Sianeli Cyfryngau

**Mewnol:** Cydweithwyr, Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, Bwrdd a Chadeiryddion Isgwmnïau

**Tîm:** Perfformiad y Grŵp, AD (Tîm Pobl), TGCh (Digidol), Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Cyfranogiad Tenantiaid, Cyfathrebu

## Pwrpas Cyffredinol y Swydd:

- Darparu arweinyddiaeth strategol a chyfrifoldeb gweithredol dros gyflawni rhaglen o newid, sy'n creu amgylchedd o well prosesau penderfynu, yn seiliedig ar fewnwelediadau ar draws yr holl bwyntiau cyswllt â chwsmeriaid, a thrwy'r defnydd o dechnoleg, i wella darparu gwasanaethau ar draws y grŵp.
- Sicrhau bod gennym y diwylliant, y systemau a'r broses iawn i wneud i hyn ddigwydd ar yr un pryd â dangos gwrando effeithiol.

## Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Allweddol:

**Arweinyddiaeth Strategol**

- Arwain ar y cynllunio busnes a strategol ar draws y Gyfarwyddiaeth Pobl a Mewnwelediadau, gan sefydlu fframwaith perfformiad effeithiol, a chan fonitro a dadansoddi tueddiadau, bylchau a risgiau'n rheolaidd ar draws y Grŵp i greu mewnwelediadau perthnasol.
- Arwain ar gefnogi a hyrwyddo ffocws ar osod y tenant yn wirioneddol wrth graidd popeth a wnawn. Arweinydd cryf, â'r gallu i osod gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol sy'n creu platfformiau i helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'n tenantiaid.
- Arwain pobl a pherfformiad uchel ar draws y Grŵp, gan gyfrannu ar lefel strategol at weithrediad llwyddiannus busnes y Grŵp fel aelod allweddol o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.
- Hybu a chefnogi diwylliant lle bydd pobl a chymunedau'n cyflawni ac yn ffynnu.

**Pobl**

- Datblygu a gweithredu strategaeth Pobl a Diwylliant a fydd yn gosod y dôn ar gyfer sut rydym yn cyflawni ein hamcanion strategol ac uchelgeisiau ein cynllun busnes drwy'n pobl.
- Pennu nodau strategol o ran rheoli talent a datblygu pobl a sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth Pobl a Diwylliant.
- Sicrhau bod ein gwerthoedd, ein hymddygiadau a'n disgwyliadau ar gyfer yr holl staff yn cyd-fynd, gan wreiddio'r rhain drwy Barcud i gyd drwy brosesau AD a rheolaeth, a chan wneud defnydd o dechnoleg fel galluogwr a mewnwelediad a data am berfformiad i yrru

newid a gwella gweithrediadau a pherfformiad yn barhaus.
- Pleidio buddion Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel rhan annatod o ddiwylliant a strategaeth y sefydliad, gan sicrhau bod hyn wedi'i wreiddio'n gadarn yn holl weithgareddau a chynlluniau'r sefydliad.
- Sicrhau bod y strategaeth yn cael ei throsi'n briodol i reolaeth gwaith a chyflawniad agendâu o ran pobl, ac arferion o'r math gorau yn y dosbarth yn cynnwys denu talent, cadw pobl, rheoli perfformiad, a newid a datblygiad sefydliadol / diwylliannol.

**Llais y Tenantiaid**

- Arwain ar bob swyddogaeth yn perthyn i wasanaethau i gwsmeriaid a chyfranogiad tenantiaid â ffocws ar arloesi a ffyrdd newydd o weithio, gan gynnig gwasanaeth o'r radd flaenaf, ag ymroddiad i ddatrys problemau ar y pwynt cyswllt cyntaf.
- Gosod gweledigaeth a strategaeth ar gyfer darparu profiad rhagorol i denantiaid a sicrhau bod ein harferion a'n prosesau'n cyflawni lefelau uchel o fodlonrwydd, gan adlewyrchu safbwyntiau ac anghenion tenantiaid a chan sicrhau bod atborth a mewnwelediadau tenantiaid yn cael eu defnyddio i siapio a dylanwadu ar ein strategaeth a'n prosesau penderfynu.
- Adolygu ymatebion i gŵynion tenantiaid, a mewnwelediadau o'r holl ymwneud â thenantiaid ar draws y Grŵp, gan sicrhau bod gwelliannau cysylltiedig i ddarpariaeth gwasanaethau yn cael eu gweithredu'n gadarn a bod tenantiaid yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r effaith y maent wedi'i chael ar weithrediad Barcud.
- Meithrin diwylliant perfformiad cryf ac ymroddiad i ofal i gwsmeriaid, gan yrru gwelliannau â ffocws ar fetrigau sy'n gosod y cwsmer yn y canol.
- Arwain, cyfarwyddo a goruchwylio pob agwedd ar wasanaeth profiad tenantiaid Barcud, a hynny'n cynnwys datblygu a gweithredu strategaeth cyfranogiad tenantiaid, gan sicrhau bod llais y tenantiaid yn cael ei glywed, ei barchu a'i werthfawrogi drwy Barcud i gyd a bod ein dulliau ymgysylltu a chyfranogi'n darparu dewislen sy'n briodol i anghenion unigol tenantiaid a chwsmeriaid.
- Goruchwylio ymagweddiad at drawsnewidiad digidol i addasu a moderneiddio profiad tenantiaid a chwsmeriaid yn barhaus.

**Mewnwelediadau**

- Dylanwadu ar welliant parhaus y perfformiad gweithrediadol cyffredinol yn Barcud drwy fonitro perfformiad yn erbyn DPA a mewnwelediad i lywio prosesau penderfynu ac ychwanegu gwerth i yrru gwelliannau o ran effeithlonrwydd, cost, ansawdd, a chynhyrchiant. Cefnogi cyflawni GaA a bodlonrwydd cwsmeriaid i wella gweithrediadau a chanlyniadau'n barhaus.
- Rheoli perfformiad yn gorfforaethol ac adrodd i'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd ar gynnydd strategol yn erbyn cyflawni Amcanion Strategol, gan argymell addasu a newid lle bo'n briodol.
- Sicrhau bod y mesurau, y dadansoddiad a'r adolygiad(au) iawn o ran perfformiad yn eu lle i gyflawni canlyniadau perfformiad y presennol a'r dyfodol ar draws y grŵp.
- Gwneud defnydd o'r holl ddata sydd ar gael, gan ddadansoddi tueddiadau i nodi lefelau perfformiad gwaelodlin ac i nodi meysydd i'w datlygu.
- Sicrhau bod cynlluniau gweithrediadol a blaenoriaethau strategol yn cyd-fynd â'i gilydd. Sicrhau bod timau gweithrediadol yn mesur yr hyn sydd o'r pwys mwyaf, ar amlder sy'n gyrru gwelliant busnes.

- Adolygu'r perfformiad a ragamcanwyd yn erbyn y perfformiad gwirioneddol â golwg ar ddysgu a gwella'n barhaus.
- Meithrin diwylliant cryf o gyflawni ac atebolrwydd.

**Digidol a Chyfathrebiadau**

- Goruchwylio datblygu strategaeth ddigidol a fydd yn galluogi cydweithwyr i weithio'n graffach â data byw, yn darparu mewnwelediadau i gefnogi penderfyniadau ar sail gwybodaeth ac yn cryfhau ac yn codi lefel ein cyfranogiad tenantiaid drwy lwyfannau digidol lle mai dyna'r cynnig a ddewisir.
- Sicrhau bod Barcud yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i arloesi a gweithio mor effeithlon ag y bo modd.
- Yn gyfrifol am bob agwedd ar gyfathrebiadau mewnol, materion allanol a marchnata, gan wneud yn fawr o bob cyfle i hyrwyddo Barcud a chan weithredu fel llysgennad yn fewnol ac yn allanol.

**Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhestr gyflawn o weithdrefnau a thasgau a gyflawnir gan ddeiliad y swydd. O ystyried y bydd yr hyn y mae gofyn i'r gwasanaeth ei wneud yn newid, efallai y bydd angen adolygu a diwygio'r dyletswyddau fel y bo'n briodol gan Brif Swyddog Gweithredol y Grŵp.**

# Manyleb Y Person

**Mae'r holl feini prawf yn hanfodol oni nodir yn wahanol**

## Cymwysterau:

- Mae cymhwyster lefel gradd mewn pwnc perthnasol neu brofiad cyfatebol yn hanfodol
- Tystiolaeth o ymroddiad i ddatblygiad proffesiynol
- Mae cymhwyster rheolaeth/Proffesiynol perthnasol (L5+) yn ddymunol

## Profiad a gwybodaeth:

- Profiad o ddatblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu â chydweithwyr yn dangos cyflawni canlyniadau allweddol yn ogystal â phrofiad o lunio a gweithredu strategaethau llwyddiannus o ran datblygu gweithlu a thalent.
- Profiad o gyfathrebiadau ar lefel uchel mewn corff â phroffeil cyhoeddus amlwg, gan roi cyngor ar lefel uchel â gallu wedi'i brofi i ddatblygu a chyflawni ymgyrchoedd cyfathrebu strategol sydd o ansawdd uchel ac yn arloesol yn fewnol ac yn allanol ar draws ystod o sianeli, â hanes o gloriannu i sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau.
- Profiad sylweddol o ymgysylltu â chwsmeriaid neu gymunedau, gan sicrhau bod llais y cwsmer yn cael ei glywed a chan ddarparu gwasanaethau â'u ffocws ar gwsmeriaid a gweithredu strategaethau perfformiad arloesol i drawsnewid cyflawniad gweithrediadol.
- Hanes blaenorol o osod a chyrraedd safonau uchel o berfformiad a defnyddio cydymffurfiaeth, metrigau, a meincnodi i roi mewnwelediadau i godi safonau a chefnogi cyflawni cynlluniau busnes corfforaethol.
- Nodi a gweithredu ar risgiau, tueddiadau a chyfleoedd am dwf, gan sicrhau bod strategaethau a chynlluniau cadarn yn cael eu cytuno a'u rheoli i gyflawni canlyniadau gwych i'r gymuned.
- Gallu wedi'i brofi i gyflawni newid sefydliadol, gan gynnwys newid diwylliannol a chreu diwylliant cadarnhaol a chynhwysol sy'n cofleidio EDIB â chanlyniadau rhagorol.
- Profiad sylweddol o weithio ar lefel uwch
- Sgiliau arweinyddol rhagorol a gweledig â hanes blaenorol o arwain timau uchel eu perfformiad, brwdfrydig ac wedi'u grymuso.
- Dealltwriaeth gynhwysfawr o lywodraethiant corfforaethol a gofynion gweithredu mewn amgylchedd a reolir yn ddwys.
- Profiad helaeth o weithio'n effeithiol gyda byrddau a rhanddeiliaid i sicrhau cydymffurfiaeth reoleiddiol a deddfwriaethol, cyflawni amcanion strategol, a nodi a rheoli risg i'r sefydliad, gan gynnwys Iechyd a Diogelwch.

- Hygrededd a phrofiad o adeiladu cydberthynasau llwyddiannus â phartneriaid allweddol.
- Ymwybyddiaeth ariannol a masnachol; yn gallu deall a chloriannu cyllidebau, cynlluniau busnes, cyfrifon blynyddol, rheolaeth adnoddau ariannol a metrigau gwerth am arian. Yn gallu cydbwyso mesurau effeithlonrwydd ariannol â darparu'r gwasanaethau a'r canlyniadau gorau posib i denantiaid a chymunedau.
- Gallu wedi'i brofi i arwain timau mawr cymhleth.
- Dealltwriaeth o'r heriadau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau allweddol i gymunedau gwledig a gwerthfawrogiad ac ymroddiad i'r rhan allweddol y mae sefydliad angori megis Barcud yn ei chwarae yn y gymuned.

## Sgiliau a Galluoedd:

- Arddull arweinyddol sy'n ysbrydoledig, yn weledig ac yn ysgogiadol.
- Yn creu partneriaethau strategol ac yn adeiladu cydberthynasau cadarnhaol â'r holl randdeiliaid.
- Meddwl strategol: yn craffu ar y gorwel, yn rhagweld ac yn rhagweithiol.
- Hanes blaenorol o arweinyddiaeth a throi cynlluniau'n weithredoedd, arwain a grymuso pobl drwy newid cadarnhaol a'i gyflawni.
- Dylanwad ac effaith; sgiliau rhyngbersonol rhagorol â'r gallu i gyfathrebu, perswadio a dylanwadu ar benderfynwyr allweddol, yn fewnol ac yn allanol fel ei gilydd.
- Cyfathrebwr ardderchog, yn gallu gwrando, rhoi a derbyn atborth yn dda, cyflwyno materion a syniadau cymhleth i wahanol gynulleidfaoedd mewn ffordd groyw, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Yn gyfforddus â siarad yn gyhoeddus a chynrychioli ar lefel genedlaethol, yn agored, yn agos-atoch ac yn dringar.
- Gallu i ddehongli a dadansoddi gwybodaeth a data cymhleth.
- Iaith Gymraeg ALTE lefel 3 (dymunol)

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth:

- Yn hyderus bod pobl yn dymuno gwneud gwaith gwych.
- Yn sefydlu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn gallu bod ar eu gorau.
- Yn ysbrydoli eraill drwy arweinyddiaeth hyderus, cadarnhaol, a gweledig.
- Yn annog, yn ymddiried, ac yn grymuso ar yr un pryd â'u dal eu hunain ac eraill yn atebol.

- Yn ymroddedig i gynnig lle gwych i weithio fel sail i wasanaeth gwych.
- Yn gwerthfawrogi amrywiaeth pobl a barn.

**Gwerthoedd personol:**

- Yn uniaethu'n agos â'r cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan y Grŵp a gwerthoedd a gweledigaeth y sefydliad.
- Yn dangos safonau personol uchel, onestrwydd, uniondeb ac empathi.
- Yn meddu ar weledigaeth ac uchelgais dros y sefydliad a'n cymunedau.
- Yn cofleidio dysgu sefydliadol a datblygiad proffesiynol parhaus.